Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol Pob Oed

CYMERADWYWYD Gorffennaf 2018

Fersiwn	Dyddiad Adolygu	Proses Ymgynghori	Perchennog	Dyddiad Cymeradwyogan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
F1.10	19/5/17	Diwrnod Gwaith y Grŵp Hyfforddiant a rhith-ymgynghori trwy e-bost	Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol	Gorffennaf 2018	Gorffennaf 2020
F2					
F3					
F4					

Cynnwys:

	Tudalen
• Cyflwyniad	3
• Cyd-destun Canolbarth a Gorllewin Cymru	3
• Diben	4
• Nodau ac Amcanion	4
• Fframwaith Hyfforddiant Craidd	5
• Strwythur Cyllido a Chyflawni	7
• Blaenoriaethau Newid	8
• Swyddogaethau a Chyfrifoldebau	8

Atodiadau:

	Tudalen
• Atodiad 1 – Grwpiau Staff a Chanlyniadau Dysgu	10
• Atodiad 2 – Enghreifftiau o swyddogaethau dan bob grŵp staff	12
• Atodiad 3 – Matrics Hyfforddiant Partneriaeth Ranbarthol	15
• Atodiad 4 – Cynllun Datblygu Arferion a Chyflawni Gwelliant	17

Geirfa:

- PPA – Profiadau Plentyndod Andwyol
- NEET – Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
- MARAC – Cynhadledd Amlasiantaethol Asesu Peryglon
- MAPPA – Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
- PRUDiC – Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentyndod
- VAWDASV – Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Deuluol a Thrais Teuluol
- MAWWSB – Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
- SS&WBA – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- CPR – Adolygiad Ymarfer Plant
- APR – Adolygiad Ymarfer Oedolion
- MAPF – Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
- DHR – Adolygiad Dynladdiad yn y Cartref
- ICD – Dogfen Gydgolegol (Iechyd)

Cyflwyniad

Busnes pawb yw diogelu pobl. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWSB) yn ymroddi i ddarparu rhaglenni hyfforddiant amlasiantaethol o safon, er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau sector statudol a phreifat a'r trydydd sector i ddiogelu a hyrwyddo ffyniant pobl, gan gynnwys atal ac amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SS&WBA). Fel yr amlinellwyd yn Rhan 7 y Ddeddf, dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod ymarferwyr yn eu hardal yn cael mynediad at ac yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt wrth amddiffyn plant ac oedolion.

Datblygwyd Strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol MAWWSB gan grŵp gwaith a gorffen amlasiantaethol yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol. Fel rhan o'r broses hon cafodd y grŵp dystiolaeth a sicrwydd bod hyfforddiant diogelu ar gael ac yn cael ei gyflwyno ar draws pob haen o'r bartneriaeth amlasiantaethol ac mae rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr yn bodoli sy'n targedu amrywiol grwpiau staff y sefydliadau.

Yn niffyg Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yng Nghymru mae strwythur a chyflawniad hyfforddiant diogelu'n amrywio rhwng asiantaethau yn ôl fframweithiau llywodraethu a hyfforddi mewnol pob sefydliad. Er enghraifft, mae sefydliadau Iechyd yn dilyn sgiliau craidd 2016 y DU a Diogelu Plant a Phobl Ifanc: swyddogaethau a chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd DOGFEN GYDGOLEGOL Mawrth 2014; ac mae gofyn i'r Heddlu sicrhau bod hyfforddiant yn cydymffurfio â gofynion gorfodol y Coleg Plismona Cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae gan holl asiantaethau partner MAWWSB ar y cyd ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu hollol benodol fel yr amlinellwyd yn y SS&WBA. Yn y cyd-destun hwn mae'r strategaeth hyfforddiant hon yn darparu fframwaith clir, cymesur a hyblyg sy'n cynorthwyo asiantaethau a MAWWSB gyflwyno hyfforddiant diogelu heb gyfaddawdu cyfrifoldebau asiantaethau partner fel y pennwyd mewn fframweithiau hyfforddi mewnol a gofynion gorfodol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ystyried a chyfrif unrhyw themâu a dysgu sy'n codi'n lleol neu ledled y wlad o archwiliadau, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref, archwiliadau ac ymchwil. Felly, ni fydd ac ni ddylai'r strategaeth hon ddisodli rhaglenni hyfforddi presennol asiantaethau a sefydliadau unigol, a'i bwriad yw ychwanegu gwerth er mwyn cefnogi'r hyn sy'n bodoli eisoes.

Nod y Fframwaith Hyfforddiant Craidd, y Canlyniadau Dysgu Dynodedig a'r Matrics Hyfforddiant sy'n cael eu manylu fel rhan o'r strategaeth hon yw cefnogi a chynorthwyo MAWWSB, asiantaethau partner a gweithwyr proffesiynol gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu fel yr amlinellwyd yn rhan 7 o SS&WBA. Mae'r Blaenoriaethau Newid Dynodedig a'r Cynllun Gwella Datblygiad a Chyflawniad Arferion yn amlinellu cynllun gwaith uchelgeisiol a dyheadol ar gyfer yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol am y 5 mlynedd nesaf.

Cyd-destun Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n unigryw trwy gynnwys ardal ddaearyddol fawr sy'n cwmpasu bron hanner arwynebedd Cymru; ynddo'i hun yn creu heriau yng nghyd-destun diwallu anghenion cymysgedd eang ac amrywiol o gymunedau. Mae MAWWSB yn

gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Phowys, gan gydweithredu fel partneriaid mewn amgylchedd amlasiantaethol.

Mae MAWWSB yn atebol i'r Bwrdd Gweithredol ac mae wedi sefydlu tri is-grŵp i gyflawni ei swyddogaethau statudol:

- Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant ac Oedolion
- Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau
- Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol

Sefydlwyd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol fel grŵp hyfforddiant rhanbarthol pob oed dan SS&WBA ym mis Gorffennaf 2016 ac mae'n cydgysylltu'n agos gyda'r Is-grwpiau Adolygiad Ymarfer a Pholisïau a Gweithdrefnau.

Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn rheoli a chydgysylltu datblygu ac adolygu'n rheolaidd hyfforddiant sy'n berthnasol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn rhanbarthol a chenedlaethol. Amcanion yr Is-grŵp Hyfforddiant yw:

- Datblygu, cydgysylltu ac adolygu darpariaeth hyfforddiant berthnasol i ddiogelu ledled y rhanbarth yn unol ag ymchwil / deddfwriaeth ranbarthol, genedlaethol a'r DU, yn ôl cyfarwyddyd MAWWSB.
- Cyflawni'r cyfrifoldeb dros ddatblygu ac adolygu hyfforddiant ar ran MAWWSB.
- Rhannu a thynnu sylw at arferion gorau ledled y rhanbarth, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau cenedlaethol, adolygiadau ymarfer a fforymau proffesiynol amlasiantaethol.
- Cydweithredu'n rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth o ran datblygu a gweithredu hyfforddiant i ddatblygu a gwella cysondeb ymarfer.

Diben

Mae'r strategaeth hon yn galluogi i MAWWSB gyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol dan SS&WBA i roi'r adnoddau i'w weithlu allu gweithio'n effeithiol i ddiogelu pobl trwy ddarparu:

- sicrwydd parhaol bod hyfforddiant diogelu priodol yn cael ei gyflwyno ymhob haen o'r bartneriaeth amlasiantaethol a bod yr hyfforddiant hwn yn cymhwyso ymarferwyr, rheolwyr a staff dynodedig i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu fel yr amlinellwyd yn SS&WBA;
- fframwaith hyfforddiant craidd eglur ac agored ar gyfer datblygu'r gweithlu i sicrhau agwedd gyson sy'n cefnogi arferion gorau ledled y rhanbarth;
- Cynllun Gwella Datblygiad a Chyflawniad Arferion sy'n manylu blaenoriaethau allweddol a ddirprwywyd i'r Is-grŵp gan y Bwrdd a datblygu peirianwaith cyflawni arloesol fel y nodwyd gan yr Is-grŵp.

Nodau ac Amcanion

Nod y strategaeth hon yw cynnal yr egwyddor bod addysg a hyfforddiant sy'n hyrwyddo eglurder a chysondeb yn sail i waith diogelu effeithiol.

Bwriad y Strategaeth yw:

- Hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o egwyddorion, swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu.
- Rhannu dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a sicrhau ei ddeall.
- Achub ar bob cyfle i gomisiynu hyfforddiant arbenigol a phwrpasol.
- Ymroddi i'r eithaf i gydweithio trwy hyfforddiant amlddisgyblaethol / asiantaeth.
- Cefnogi patrymau cyflwyno mwy effeithlon ar draws sefydliadau, er enghraifft Arwyddion Diogelwch.

Yr amcanion allweddol yw:

- Nodi adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno / gomisiynu hyfforddiant newydd.
- Gwella cyfathrebu a chytuno ar y derminoleg i'w defnyddio.
- Sicrhau agwedd gyson at hyfforddiant.
- Sicrhau bod y gweithlu'n cael yr hyfforddiant iawn ar yr adeg iawn, gan gynnwys hyfforddiant cynefino a gloywi.
- Cynorthwyo datblygu cymwyseddau diogelu.
- Datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno hyfforddiant i ddiwallu anghenion gweithlu fwyfwy heini.
- Fel elfen o gyflwyno holl hyfforddiant, tynnu sylw at MAWWSB a'i swyddogaethau.
- Datblygu ffordd gyson o arolygu a chloriannu cyflwyno ac effeithiolrwydd hyfforddiant diogelu.

Mae'r strategaeth yn cefnogi agwedd gydweithredol rhwng asiantaethau at gomisiynu a chyflwyno hyfforddiant diogelu a bydd yn dal i ddatblygu ac ehangu gyda threigl amser; ni fwriadwyd iddi fod yn ddogfen sefydlog.

Fframwaith Hyfforddiant Craidd

Datblygwyd Fframwaith Hyfforddiant Craidd i gynorthwyo MAWWSB gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ran 7 o SS&WBA trwy ddangos y gofynion hyfforddiant diogelu lleiaf ar gyfer staff sy'n gweithio ymhob sefydliad.

Bydd gweithredu'r fframwaith yn cael ei gytuno'n lleol ac mae'r fframwaith yn fan cychwyn i bob lefel o hyfforddiant y gall unigolion a grwpiau ddisgwyl, gan gynnwys hyfforddiant diogelu gorfodol. Nid yw'r strategaeth hon yn cwmpasu holl gyrsiau y gall asiantaethau unigol eu cyflwyno.

Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod eu cyflogeion yn dilyn yr hyfforddiant gofynnol dan y fframwaith hwn.

Mae'r fframwaith yn cydnabod dilyniant o wybodaeth sylfaenol trwodd i wybodaeth a sgiliau arbenigol ac mae'n fodd i sicrhau bod cyflogeion o bob asiantaeth yn cael hyfforddiant cyson ac effeithiol.

Mae'r tabl drosodd yn disgrifio'r pump o grwpiau staff sydd angen hyfforddiant ar draws sefydliadau. Yn Atodiad 1 mae enghreifftiau manylach o ba swyddogaethau ymhob sefydliad sy'n cyfateb i'r grwpiau staff, gyferbyn â chanlyniadau dysgu'r grwpiau hyn. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn crynhoi gofynion hyfforddiant pob asiantaeth o ran y grwpiau staff hyn.

Grwpiau Staff	Swyddogaeth / Disgrifiad
A	Holl staff sy'n gweithio o fewn y sefydliad
B	Y staff hynny sydd ag unrhyw gysylltiad â phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr neu oedolion diamddiffyn a/neu eu gofalwyr
C	Holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr ac a allai gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd a chloriannu anghenion plant, pobl ifanc, oedolion diamddiffyn neu'r gallu i fagu plant pan fo pryderon diogelu / amddiffyn plant
D	Swyddogaethau arbenigol – gweithwyr proffesiynol penodol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol diogelu plant neu oedolion
E	Swyddogaethau arbenigol – cynghorwyr proffesiynol, gweithwyr iechyd proffesiynol penodedig ac arweinyddion diogelu addysg, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol Lefel Bwrdd ac aelodau'r Bwrdd Diogelu

Caiff pob sefydliad ei lywodraethu gan ei fframwaith a dogfennau hyfforddi ei hun (gwelwch isod) a rhaid derbyn bod hyn yn ei gwneud yn anodd llunio fframwaith hyfforddi sy'n dderbyniol i holl sefydliadau. Rhaid cydnabod y gall rhai cyflogwyr ofyn bod grwpiau staff penodol yn cael eu hyfforddi i safon uwch na'r disgrifiad yn y strategaeth hon i gyflawni eu bwriad a diben trefnyddol yn well:

- **Awdurdodau Lleol**

Tra bo gofynion hyfforddiant staff awdurdodau lleol yn debyg i staff sy'n gweithio mewn sectorau statudol eraill, mae nifer o fframweithiau cyfreithiol a phroffesiynol yn llywodraethu'r hyfforddiant sy'n cael ei roi iddynt. Mae SS&WBA yn darparu'r fframwaith cyfreithiol at wella ffyniant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, a gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn SS&WBA mae agwedd bartneriaeth gryfach, gadarn ac effeithiol at ddiogelu. Mae Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol yn helpu staff weithio o fewn y fframwaith newydd a grëwyd gan SS&WBA ond mae angen i hyfforddiant diogelu hefyd adlewyrchu'r Gweithdrefnau Cymru Gyfan. Hefyd mae nifer o fframweithiau nad ydynt yn rheoleiddiol, fel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (sy'n uwchfframwaith hollgynhwysol a luniwyd i roi mwy o eglurder i'r gyfundrefn gymwysterau yng Nghymru). Ar hyn o bryd mae Cymwysterau Cymru'n ymgynghori ar fframwaith newydd ar gyfer cymwysterau gofal cymdeithasol a bydd hyn yn dylanwadu yn y pen draw ar lwybrau hyfforddi yng Nghymru. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cynhyrchu adnoddau hyfforddi fel y Pecyn Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan i gefnogi datblygu'r gweithlu.

- **Addysg**

Mae gofynion hyfforddiant staff o fewn y gyfarwyddiaeth Addysg yr un â staff arall Awdurdodau Lleol. Mae ysgolion yn sefydliadau annibynnol ac yn gyfrifol am sicrhau eu bod

wedi caffael hyfforddiant perthnasol, gan gadw at amserlenni gofynnol ar gyfer cyrsiau gloywi / ailhyfforddi, pan fo hynny'n orfodol.

- **Iechyd**

Rhaid i holl staff gofal iechyd fod â'r cymwyseddau i adnabod oedolion a phlant sydd mewn perygl, a chymryd camau effeithiol fel y bo'n briodol i'w swyddogaeth. DOGFEN GYDGOLEGOL Diogelu Plant a Phobl Ifanc: swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd Mawrth 2014 a fframwaith Sgiliau Craidd y DU 2016 yw'r dogfennau y bydd sefydliadau'r GIG yn eu defnyddio i feincnodi anghenion hyfforddiant diogelu eu gweithlu. Mae e-ddysgu a dysgu wyneb yn wyneb ar gael i staff yn ôl y dogfennau hyn.

- **Yr Heddlu**

ACPO o fewn Heddlu Dyfed Powys sy'n cytuno gofynion hyfforddiant yr Heddlu ac amserlenni ar gyfer swyddogion a staff yr Heddlu. Mae'r cynnwys a dull cyflwyno'n debyg iawn i heddluoedd eraill gyda'r Coleg Plismona Cenedlaethol ac Asiantaethau achrededig eraill yn eu llywodraethu. Tra bo rhai pecynnau hyfforddiant yn cyflawni'r gofynion hyn, maent wrth fesur i Heddlu Dyfed Powys er mwyn sicrhau diwallu anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Strwythur Cyllido a Chyflawni

Caiff yr holl hyfforddiant sydd yn y Fframwaith Craidd (Atodiad 2) ei gyllido'n fewnol gan sefydliadau partner unigol a grantiau Llywodraeth Cymru. Bydd holl sefydliadau'r bartneriaeth yn cyfrannu 'mewn nwyddau' at ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant amlasiantaethol rhanbarthol. Mater gwleidyddol yw cyllido blaenoriaethau hyfforddi rhanbarthol ac mae gan bob sefydliad reolau cyfrifyddu trefnyddol a blaenoriaethau mewnol ar gyfer defnyddio cyllidebau hyfforddiant dan bwysau. Mae peirianwaith ar gyfer comisiynu / cyllido hyfforddiant a nododd MAWWSB a/neu'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol yn cael eu harchwilio.

Oherwydd pwysigrwydd cytuno peirianwaith cyllido cynaliadwy ar gyfer hyfforddiant diogelu amlasiantaethol ranbarthol ychwanegwyd hyn at gynllun cyflawni'r Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol i'w ystyried.

Mae cael dulliau cyson o weinyddu a thystysgrifo hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno'n rhanbarthol ar draws holl sefydliadau partner a sicrhau bod holl hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno ar ran MAWWSB yn cael ei gydnabod fel y cyfryw, yn bwysig i alluogi'r Bwrdd gyflawni ei gyfrifoldebau dan SS&WBA. Diben hyfforddi yw gwella gallu ac mae'n bwysig sicrhau cloriannu effaith hyfforddiant a'r elw o fuddsoddiad trwy fesur i ba raddau y caiff nodau dysgu eu cyrraedd o ran y canlynol:

- Cynnydd diffiniedig mewn gwybodaeth neu sgiliau.
- Cymwysterau a gafwyd.
- Profi sefyllfaoedd perthnasol.
- Gweld newid diwylliannol mesuradwy.
- Gwella amgyffred staff mewn cysylltiad â sefyllfaoedd penodol.

Caiff datblygu dull cyson o weinyddu a chloriannu hyfforddiant amlasiantaethol rhanbarthol ei gynnwys hefyd yng nghynllun gwaith yr Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol ar gyfer 2018.

Blaenoriaethau Newid

Cyfranogodd partneriaid amlasiantaethol mewn gweithdy rhanbarthol ym mis Mai 2017. Yn ystod y gweithdy nododd partneriaid amrywiaeth o feysydd ar gyfer newid a datblygu hyfforddiant diogelu'n gadarnhaol ar draws y rhanbarth. Cytunodd partneriaid ar nifer o egwyddorion allweddol a nifer o ffyrdd ymarferol o ddatblygu'r egwyddorion hyn ledled y rhanbarth (Atodiad 3):

- 'Busnes Pawb'. Nod hyfforddiant cyson, perthnasol, penodol ac arloesol at ei gilydd yw plannu negeseuon diogelu allweddol fel bod diogelu'n dod yn ymateb anymwybodol diofyn gweithlu hyderus ar draws holl asiantaethau a sefydliadau.
- Mae cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ymarferwyr ledled y rhanbarth, gan gydweithredu i rannu gwybodaeth arbenigol. Mae cyfle i ffurfio cronfa o hyfforddwyr arweiniol mewn pynciau penodol i gyflwyno i'w gilydd ar draws y rhanbarth.
- Mae angen rhoi sicrwydd i M&WWSB bod y Fframwaith Hyfforddiant Craidd yn cael ei weithredu'n gyson ymhob sefydliad partner. Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi dyfeisio templed hysbysu a bydd yn rhoi adroddiadau sicrwydd blynyddol.
- Mae modd cynorthwyo cysondeb ymarfer ar draws y rhanbarth trwy ddatblygu Pasbort Hyfforddiant Diogelu ar sail cyflawniad gyferbyn â'r Fframwaith Craidd.
- Mae angen datblygu 'Hyfforddiant yn ei Bryd' fel bod staff yn gallu cael hyfforddiant diogelu sylfaenol a gwybodaeth pan fo'n fwyaf perthnasol yn hytrach nag aros i leoedd fod ar gael ar y cwrs hyfforddi nesaf. Mae modd gwneud hyn gyda thechnoleg newydd ar ffurf modiwlau e-ddysgu holl asiantaethau, wedi'u hysgrifennu'n rhanbarthol ac ar gael ar bob llwyfan ac Ap Hyfforddiant Diogelu sydd ond ar gael yn Lloegr ar hyn o bryd. Mae'r grŵp yn bwriadu gweithio tuag at ddatblygu fersiwn o'r Ap hwn ar gyfer Cymru. *Dylid nodi nad yw hyn efallai'n berthnasol i holl bartneriaid, er enghraifft – mae'r Heddlu'n e-ddysgu (gorfodol ac arbenigol) trwy NCALT (Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol).*

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

<u>Cyfrifoldebau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru:</u>

Bwrdd trosfwaol sy'n ceisio cadw golwg ar a gwella gweithgaredd diogelu rhanbarthol yw'r Bwrdd Gweithredol. Mae'n cynnwys uwch-swyddogion o holl bartneriaid statudol ac asiantaethau allweddol. Mae M&WWSB yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod y gweithlu'n cael hyfforddiant diogelu amlasiantaethol.
- Rhoi canllawiau i'w bartneriaid statudol i gyd a gwneud hyn trwy nodi blaenoriaethau strategol blynyddol a chanlyniadau i'w dymuno o ran gweithgaredd ac arferion diogelu.
- Adolygu a chloriannu cyflwyno, cyrraedd ac argaeledd hyfforddiant diogelu.
- Cynorthwyo, arwain a chael cyngor yr Is-grŵp Hyfforddiant ochr yn ochr ag is-grwpiau eraill y Bwrdd.

- Rhoi blaenoriaethau hyfforddi allweddol ar gyfer diogelu i'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol erbyn mis Hydref bob blwyddyn.

Cyfrifoldebau'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:

- Mae Rhan 7 SS&WBA yn datgan y dylai holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru sicrhau bod ymarferwyr yn ardal y Bwrdd yn cael, neu'n cael mynediad at, yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt o ran amddiffyn plant ac oedolion ac atal cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Dylid ysbrydoli hyn trwy adolygu a dadansoddi anghenion hyfforddiant ymarferwyr ac fe dirprwywyd y cyfrifoldeb hwn i'r grŵp hyfforddiant rhanbarthol.
- Lledaenu'r blaenoriaethau hyfforddiant diogelu strategol a nodwyd bob blwyddyn gan M&WWSB a chynorthwyo ac arwain cyflwyno'r blaenoriaethau hyn ar draws sefydliadau ac asiantaethau.
- Gweithio'n agos gydag adrannau hyfforddiant sefydliadau i hyrwyddo ansawdd cyflwyno hyfforddiant diogelu.
- Gweithio a chydweithredu gyda'r Bwrdd Gweithredol ac is-grwpiau eraill y Bwrdd, h.y. Is-grwpiau Adolygiad Ymarfer, Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) a'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau mewn cysylltiad â blaenoriaethau strategol.
- Lledaenu gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer, Adolygiadau Dynladdiad yn y Cartref a MAPF.
- Cynghori ar ffyrdd creadigol o gyflawni canlyniadau hyfforddi ar draws sefydliadau / asiantaethau a, phan fo hynny'n briodol, dylunio / cyflwyno / comisiynu hyfforddiant a deunyddiau hyfforddi sy'n berthnasol i holl sefydliadau.
- Cynnig cymorth a chanllawiau i'r Bwrdd a chynghori'r Bwrdd ar ofynion hyfforddiant diogelu.
- Ystyried a thrafod blaenoriaethau hyfforddi allweddol y Bwrdd Gweithredol a phorthi hynny i'r cynlluniau hyfforddi lleol.

Cyfrifoldebau aelodau'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:

- Bod â'r awdurdod priodol i gynrychioli eu sefydliad.
- Rhoi gwybodaeth am waith y grŵp i staff perthnasol yn eu sefydliad.
- Cwblhau holl waith y maent yn gyfrifol amdano o fewn yr amserlen a gytunwyd.
- Sicrhau bod gan y rhai gyda'r awdurdod perthnasol i gyd-drafod / cytuno cyllid ar gyfer darparu hyfforddiant o fewn eu sefydliad y wybodaeth ynghylch yr hyfforddiant i wneud y penderfyniad a hysbysu'r Grŵp Hyfforddiant o ganlyniad.
- Mynychu cyfarfodydd yn gyson a rheolaidd ac, os nad oes modd gwneud hynny, anfon dirprwy gyda'r awdurdod priodol.

Atodiad 1: Grwpiau Staff a Chanlyniadau Dysgu

Sylwch: Nid yw'r swyddogaethau a chanlyniadau dysgu enghreifftiol isod yn sefydlog nac yn gyflawn a byddant yn amrywio yn ôl sefydliad ac asiantaeth. Dylid darllen y rhestr hon fel arweiniad yn unig ac ni fydd yn cynnwys pob swyddogaeth ymhob sefydliad.

Grwpiau Staff	Swyddogaeth / Disgrifiad	Canlyniadau Dysgu
A	Holl staff sy'n gweithio o fewn y sefydliad.	Cymhwysedd ar y lefel hon yw bod unigolion yn gwybod am beth i chwilio a allai ddangos bod niwed, gwybod gyda phwy i gysylltu a gofyn am gyngor os oes ganddynt bryderon.
B	Staff sydd ag unrhyw gysylltiad â phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr neu oedolion mewn perygl a/neu eu gofalwyr.	**Fel yr uchod a hefyd** • Gwybodaeth sylfaenol am ddeddfwriaeth berthnasol. • Gallu adnabod arwyddion a symptomau cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed. • Gallu defnyddio'r polisïau a threfnau priodol i gynorthwyo materion diogelu'n effeithiol. • Deall eu swyddogaeth a chyfrifoldebau eu hunain a rhai pobl eraill wrth ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl.
C	Holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr ac a allai gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd a chloriannu anghenion plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl neu alluoedd magu plant pan fo pryderon diogelu.	**Fel yr uchod a hefyd** • Adnabod, ymateb i a gwybod sut i rannu pryderon diogelu. • Deall amrywiaeth gwahanol gredau diwylliannol a chrefyddol wrth weithio i ddiogelu a hyrwyddo ffyniant plant ac oedolion mewn perygl. • Deall ac adnabod y rhwystrau sy'n peri diffyg ymgysylltu a/neu beidio â chydymffurfio o ran plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl a'u teuluoedd. • Deall sut i gyfrannu'n briodol at asesiad rhwng asiantaethau trwy gasglu a rhannu gwybodaeth yn briodol. • Deall sut i herio gweithwyr proffesiynol eraill a sut i ddwysáu pryderon yn briodol. • Bod â dealltwriaeth glir o sut all pobl gael cymorth beth bynnag yw'r angen yn unol â'r trothwyon rhanbarthol 'Cymorth Cywir ar yr Adeg Iawn' a dogfen hawl i gymorth. • Gwybod pryd a sut i ymgynghori ag arweinydd diogelu neu swyddog diogelu penodedig. • Gallu cofnodi pryderon mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer prosesau diogelu a chyfreithiol.

D	Swyddogaethau arbenigol – gweithwyr proffesiynol penodol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol diogelu plant neu oedolion.	**Fel yr uchod <u>a hefyd</u>** • Gallu cyfrannu at, ac mewn rhai achosion arwain datblygu ac adfywio polisïau, trefnau a phrotocolau diogelu mewnol ac ati. • Gallu gweithio gydag ymarferwyr eraill, plant, teuluoedd ac oedolion mewn perygl ar waith cymhleth neu feysydd ymarfer penodol sy'n gofyn gwybodaeth neu sgiliau penodol, er enghraifft, cydymchwiliadau dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989. • Dealltwriaeth glir o'r Protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol rhanbarthol i allu gwneud penderfyniadau anodd, deall sut i drin anghytundebau proffesiynol a dwysáu'n briodol. • Bod â'r sgiliau i weithio gydag eraill i roi sylw i faterion ymddygiad ymosodol, diffyg cydymffurfio neu gydymffurfio cudd all daro ar allu ymarferwyr i ddiogelu a hybu ffyniant plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn achosion cymhleth. • Dealltwriaeth o ffactorau rhyngbersonol, mewnol a chyfundrefnol sy'n dylanwadu ar bosibilrwydd newid. • Cefnogi cydweithwyr a'u cynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau o ran pryderon diogelu. • Deall a gallu gwneud cyfraniad effeithiol trwy ysgrifennu adroddiadau a chyfathrebu llafar i gyfarfodydd cynllunio ac adolygu achosion amlddisgyblaethol. • Gallu asesu perthnasedd a statws gwybodaeth a'i throsglwyddo pan fo hynny'n briodol. • Asesu maint yr angen ac ymateb yn briodol, gan atgyfeirio i'r asiantaeth briodol pan fo angen. • Deall proses a llwybrau atgyfeirio yn ôl pob math o angen.
E	Swyddogaethau arbenigol – cynghorwyr proffesiynol, gweithwyr proffesiynol iechyd penodedig ac arweinyddion diogelu ym myd addysg, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. <u>Lefel Bwrdd ac aelodau'r Bwrdd Diogelu</u>	**Fel yr uchod <u>a hefyd</u>** • Gweithio fel partner gydag asiantaethau i ddadansoddi anghenion hyfforddiant diogelu a chomisiynu, cynllunio, cyflwyno a chloriannu hyfforddiant unigol a rhwng asiantaethau. • Cynnal a chyfrannu at adolygiadau ymarfer oedolion a phlant. • Cydgysylltu a chyfrannu at roi cynlluniau gweithredu ar waith a dysgu yn dilyn yr adolygiadau uchod. • Gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o gyrff eraill gan roi cyngor fel y bo'n briodol. Rhaid i <u>holl aelodau'r Bwrdd</u> fod â gwybodaeth gyfartal â holl staff sy'n gweithio yn y lleoliad (lefel 1) yn ogystal â chymwyseddau ychwanegol seiliedig ar wybodaeth yn rhinwedd eu haelodaeth o'r Bwrdd neu swyddogaeth anweithredol cyfarwyddwr diogelu. Dylai cyngor a gwybodaeth ddiogelu arbenigol fod ar gael i holl Fyrddau trwy weithwyr proffesiynol penodedig neu benodol unswydd.

Atodiad 2: Enghreifftiau o Fathau o Swyddogaethau dan bob Grŵp Staff

Grwpiau Staff	ENGHREIFFTIAU O FATHAU O SWYDDOGAETHAU DAN BOB GRŴP STAFF
A	**Ymwybyddiaeth sylfaenol**
Iechyd	Holl staff hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 1: Holl staff, gan gynnwys staff di-dâl a gwirfoddol (sgiliau craidd y DU 2016) Hyfforddiant Diogelu Plant (*PTHB yn unig, holl staff HDUHB yn dechrau yn B o ran hyfforddiant diogelu plant*) Lefel 1 Holl staff gan gynnwys rheolwyr anghlinigol a staff yn gweithio mewn sefydliadau gofal iechyd (sgiliau craidd y DU 2016) Diogelu Plant a Phobl Ifanc: DOGFEN GYDGOLEGOL swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd i blant Hyfforddiant gloywi bob 3 blynedd
Addysg	Holl staff
Yr Heddlu	*Amherthnasol*
Awdurdod Lleol	Holl staff
B	**Y staff hynny sydd ag unrhyw gysylltiad â phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr neu oedolion mewn perygl a/neu eu gofalwyr**
Iechyd	Hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 2: Staff gyda chyfrifoldeb proffesiynol a threfnyddol dros ddiogelu oedolion, yn gallu gweithredu ar bryderon a gweithio o fewn cyd-destun rhwng asiantaethau neu amlasiantaethol (sgiliau craidd y DU 2016) Hyfforddiant Diogelu Plant *(Holl staff HDUHB yn cwblhau hyfforddiant Lefel 2)* Lefel 2 yw'r lefel ofynnol isaf i staff clinigol ac anghlinigol sydd â rhywfaint o gysylltiad â phlant a phobl ifanc a neu rieni / gofalwyr (sgiliau craidd y DU 2016) Lefel 2 (ICD) Diogelu Plant a Phobl Ifanc: DOGFEN GYDGOLEGOL swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd i blant Hyfforddiant gloywi bob 3 blynedd
Addysg	Derbynyddion, staff clercio, llyfrgellwyr, staff cludiant ysgol (arbenigol), staff llanw e-addysgu, Staff Derbyn Plant i Ysgolion, athrawon

Yr Heddlu	Holl swyddogion rheng flaen yr heddlu o Gwnstabl / Ditectif Gwnstabl, Rhingyll, Ditectif Ringyll i Arolygydd / Ditectif Arolygydd; rhai staff ategol yn dibynnu ar swyddogaeth, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Gweithredwyr a Gweinyddwyr Ystafell Hysbysrwydd yr Heddlu, ymchwilwyr staff yr heddlu a staff diogelu pobl ddiamddiffyn / diogelu'r cyhoedd.
Awdurdod Lleol	Staff / gwirfoddolwyr sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain, canolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth neu swyddfeydd canolog, gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, staff Gofal Cymdeithasol, staff sy'n darparu gofal ac asesiad i unigolion diamddiffyn yn unrhyw leoliad, gweithwyr cymorth, swyddogion tai a gweithwyr estyn allan at deuluoedd.
C	**Holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr oedolion mewn perygl a/neu eu gofalwyr ac a allai gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd a chloriannu anghenion plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl neu'r gallu i fagu plant lle mae pryderon diogelu / amddiffyn plant.**
Iechyd	Hyfforddiant diogelu oedolion Bydd angen i holl staff clinigol sy'n gweithio gydag oedolion ddilyn hyfforddiant PREVENT (hyfforddiant sgiliau craidd y DU). Rhaid derbyn y gall rhai cyflogwyr ofyn hyfforddi grwpiau staff penodol i safon uwch i gyflawni eu bwriad a diben trefnyddol yn well. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys gofyn bod staff uwch yn dilyn hyfforddiant pellach MCA a DoLS er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaeth a chyfrifoldebau. Hyfforddiant diogelu plant Staff clinigol Lefel 3 sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni / gofalwyr ac a allai gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd a chloriannu anghenion plant neu bobl ifanc a'r gallu i fagu plant lle mae pryderon diogelu / amddiffyn plant (sgiliau craidd y DU 2016) (ICD) Diogelu Plant a Phobl ifanc: DOGFEN GYDGOLEGOL swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd i blant.
Addysg	Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Ategol Llythrennedd Emosiynol, Athrawon a Hyfforddwyr Teithiol (heblaw'r Awdurdod Lleol, e.e. cerddoriaeth), Athrawon Arbenigol, Cynghorwyr Herio.
Yr Heddlu	*Amherthnasol*
Awdurdod Lleol	Rheolwyr darparwyr gwasanaethau mewn sefydliadau statudol sy'n darparu gofal a chymorth i blant / oedolion ifanc ac oedolion; staff sy'n ymgymryd â swyddogaeth Rheolwr Gofal neu Gydgysylltydd Gofal / Gweithiwr Cymdeithasol neu asesydd anghenion gofal, gweithwyr estyn allan at deuluoedd a staff mewn timau arbenigol yn gweithio gyda theuluoedd.

D	**Swyddogaethau arbenigol – gweithwyr proffesiynol penodol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol diogelu plant neu oedolion.**
Iechyd	Diogelu Oedolion Gweithwyr proffesiynol penodol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol diogelu plant neu oedolion Diogelu Plant Lefel 4 Diogelu Plant a Phobl ifanc: DOGFEN GYDGOLEGOL swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd i blant
Addysg	Swyddogion Uwch Penodedig, Dirprwy Swyddogion Uwch Penodedig, Penaethiaid Ysgolion, Dirprwy Benaethiaid; cynghorwyr ysgol, gweithwyr cefnogi teuluoedd a thebyg; arweinydd diogelu'r Corff Llywodraethol, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion cyrff llywodraethol; Seicolegwyr Addysg, Rheolwr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, rheolwyr addysg.
Yr Heddlu	Swyddogion Uned Ymchwilio ar y Cyd: Ditectif Gwnstabliaid, Ditectif Ringylliaid, Ditectif Arolygwyr a swyddogion arbenigol DAO, cyswllt ysgolion (***rhywfaint o hyfforddiant yn unig).* Uned Ymchwilio ar y Cyd neu ymchwilwyr DAO, neu ymchwilwyr arbenigol staff yr heddlu.
Awdurdod Lleol	Arweinyddion diogelu, ymchwilwyr mewn achosion anhroseddol, APSO, Cadeiryddion MARAC, AMPH.
E	**Swyddogaethau arbenigol – Lefel y Bwrdd ac aelodau'r Bwrdd Diogelu, cynghorwyr proffesiynol, gweithwyr proffesiynol iechyd penodedig ac arweinyddion diogelu ym myd addysg, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol**
Iechyd	Diogelu Oedolion Gweithwyr proffesiynol penodol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol amddiffyn oedolion Diogelu Plant Lefel 4 Diogelu Plant a Phobl ifanc: DOGFEN GYDGOLEGOL swyddogaethau a chymwyseddau staff gofal iechyd i blant
Addysg	Arweinydd Diogelu Addysg. Rheolwyr Addysg Uwch, Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Addysg.
Yr Heddlu	Ditectif Gwnstabliaid Arbenigol neu ymchwilwyr arbenigol h.y. DAO neu MOSAVOO, Ditectif Ringylliaid, Ditectif Arolygydd rhai swyddogaethau staff yr heddlu h.y. Cydgysylltwyr MARAC MAPPA CSE, Ditectif Arolygydd, Ditectif Prif Arolygydd, Ditectif Uwcharolygydd (*yn dibynnu ar y swyddogaeth*)
Awdurdod Lleol	Staff gyda chyfrifoldebau strategol o fewn sefydliadau sy'n rheoli cyflogeion yn ymgymryd â gwaith amddiffyn plant / oedolion, gan gynnwys staff â swyddogaeth DLM, gydgysylltwyr amddiffyn oedolion a/neu blant a gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â swyddogaeth ymchwilydd yn achosion anhroseddol. Aelodau etholedig ac aelodau'r Bwrdd sydd â chydgyfrifoldebau dros amddiffyn plant / oedolion. Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Atodiad 3: Matrics Hyfforddiant Partneriaeth Ranbarthol

Mae'r matrics isod yn rhoi cynrychiolaeth fras o hyfforddiant diogelu sydd ar gael ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol. Bydd hyfforddiant yn wahanol ar sail canlyniadau dysgu gofynnol pob grŵp o staff.

Hyfforddiant Craidd	**Grŵp Staff**				
	A	**B**	**C**	**D**	**E**
Diogelu Plant	✓	✓	✓	✓	✓
Diogelu Oedolion mewn Perygl	✓	✓	✓	✓	✓
Amddiffyn Oedolion, gan gynnwys Sefydliadau Cymunedol a Gofal, Camdriniaeth ac Esgeulustod, Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)		✓	✓	✓	✓
Amddiffyn Plant, gan gynnwys Prosesau ac Ymatebion, Rheoli Honiadau yn erbyn Oedolion, ac ati		✓	✓		
Camfanteisio Rhywiol ar Oedolion					
Camfanteisio Rhywiol ar Blant	✓	✓	✓	✓	✓
Cam-drin Plant yn Rhywiol		✓	✓	✓	✓
DoLS (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid)			✓	✓	
Camdriniaeth ac Esgeulustod Emosiynol		✓	✓		
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod	✓	✓	✓	✓	✓
Ymelwa / Cam-drin Ariannol				✓	✓
Trosedd Casineb / Cyfaill	✓			✓	
Trais / Camdriniaeth ar sail Enw Da a Phriodas dan Orfod	✓	✓		✓	✓
Rheoli Ymchwiliadau		✓		✓	✓
MARAC, gan gynnwys Hyfforddiant Cadeirydd MARAC / MAPPA / WISDOM			✓	✓	✓
Deddf Cymhwyster Meddyliol		✓	✓	✓	
Iechyd Meddwl / Ffyniant / Cymorth Cyntaf Meddyliol		✓	✓	✓	✓
Caethiwed Cyfoes	✓	✓	✓	✓	✓
Camfanteisio Ar-lein, CEOP / Seiber Ddiogelwch	✓	✓	✓	✓	✓
PREVENT / Radicaleiddio	✓	✓	✓	✓	✓
PRUDiC				✓	✓
Recriwtio Mwy Diogel			✓	✓	

Diogelu a swyddogaeth yr AMPH			✓	✓	
Diogelu mewn Sefydliad Gofal		✓	✓		
Arwyddion Diogelwch		✓	✓	✓	✓
Rheoli Troseddwyr Rhyw		✓	✓	✓	✓
Camddefnyddio Sylweddau		✓	✓		
Hunanladdiad a Hunan-niwed		✓	✓	✓	
Trawma / Ymgydio					
VAWDASV / Camdriniaeth / Trais Teuluol	✓	✓	✓	✓	✓

Atodiad 4: Cynllun Gwella Datblygiad a Chyflawniad Arferion

Oherwydd pwysigrwydd dal i ddatblygu arferion diogelu ar draws holl sefydliadau ac ymateb yn rhagweithiol i ganlyniadau, er enghraifft archwiliadau ac Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion, mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu wedi datblygu Cynllun Gwella Datblygiad a Chyflawniad Arferion sy'n manylu ar flaenoriaethau allweddol a ddirprwywyd i'r Is-grŵp gan MAWWSB a datblygu peirianwaith cyflawni arloesol fel y nodwyd gan yr Is-grŵp.

Cynllun Gwella Datblygiad a Chyflawniad Arferion		
Amcan	**Arweinydd**	**Erbyn pryd**
1. Cytuno ar beirianwaith cyllido hyfforddiant amlasiantaethol rhanbarthol trwy MAWWSB sy'n dderbyniol i holl sefydliadau		
2. Datblygu dull cyson a chytûn o weinyddu a chloriannu hyfforddiant amlasiantaethol rhanbarthol		
3. Datblygu fframwaith hysbysu ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Gweithredol ar hyfforddiant diogelu rhanbarthol		
4. Datblygu pasbort hyfforddiant rhanbarthol trosglwyddadwy		
5. Datblygu a lansio ap hyfforddi rhanbarthol sydd ar gael ymhobman (*pan fo hynny'n berthnasol i'r sefydliad*)		
6. Datblygu dewislen e-ddysgu ranbarthol, ar gael ar wahanol lwyfannau, ond gyda'r un cynnwys		
7. Datblygu a lansio cyfeiriadur rhanbarthol o hyfforddiant ac achlysuron sy'n dod		
8. Datblygu a chomisiynu / cyflwyno hyfforddiant safonol ar gyfer arweinwyr diogelu penodedig yn unrhyw sector i wneud eu gwaith		
9. Datblygu offeryn archwilio a chynnal archwiliad o gyflwyno hyfforddiant diogelu ar draws holl sefydliadau a chyflwyno adroddiad i MAWWSB fel rhan o'r sicrwydd ansawdd a pherfformiad rhanbarthol		

10. Mae sicrhau ymwybyddiaeth o'r Bwrdd a'i swyddogaethau'n elfen o holl hyfforddiant a gyflwynir		
11. Cyflwyno adroddiad i MAWWSB bob blwyddyn ar gyflawni'r Fframwaith Craidd		
12. Archwilio datblygu cronfa ranbarthol o hyfforddwyr craidd ar bynciau allweddol i gyflwyno ar y cyd ar draws y rhanbarth ar sail gilyddol		
13. Datblygu offeryn archwilio i gynnwys sut gaiff hyfforddiant ei gyllido (creiddiol, mewnol, cyllidebau cyfun) a sut gaiff cyllidebau cyfun eu rhannu.		
14. Cadw golwg dros, arolygu ac adolygu gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i VAWDASV ar draws y pedwar awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a CAFCASS CYMRU. *(Mae'r Heddlu'n aros am gyfarwyddyd y Coleg Plismona Cenedlaethol o ran lefel / gofyn am hyfforddiant)*		